**Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

**Adroddiad Blynyddol, Ebrill 2019 – Tachwedd 2020**

**CYNNWYS**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | | 2 |
| Adroddiad y Cadeirydd | | 2 |
| Nodyn gan yr Ysgrifennydd | | 3 |
| Cyflwyniad | | 4 |
| Bwrw golwg dros y flwyddyn | | 4 |
| Manylion yr awdurdod penodi | Atodiad I | 7 |
| Ardal y Fforwm Mynediad Lleol | Atodiad II | 8 |
| Manylion cyfarfodydd | Atodiad III | 9 |
| Manylion yr aelodau | Atodiad IV | 10 |
| Darllen pellach | Atodiad V | 16 |

## ADRODDIAD BLYNYDDOL FFORWM MYNEDIAD LLEOL (FfMLl)

## PCBB 2019-20

### Rhagymadrodd y Cadeirydd

Unwaith eto, mae'n rhaid i mi gymeradwyo ystod gwybodaeth helaeth Aelodau'r Fforwm a'u parodrwydd i sicrhau fod y cyfarfodydd yn rhai effeithiol ac yn llawn mwynhad. Hyd yn oed yn sgil treialon pandemig COVID eleni, roedd modd i ni sicrhau fod unrhyw benderfyniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

Rwyf mor ffodus o gael grŵp mor amrywiol o bobl ac mae hyd yn oed fy nymuniad o'r flwyddyn ddiwethaf ar gyfer seiclwyr oddi ar y ffordd wedi cael ei wireddu! Caiff hyn ei atgyfnerthu gan fy nealltwriaeth, yn sgil trafodaethau â Chadeiryddion FfMLl eraill Cymru, fod gennym, mae'n siŵr yr amrywiaeth aelodau orau o bob man yng Nghymru. Mae trosolwg sydyn yn dangos fod gennym raniad o bron i 50:50 o fenywod a gwrywod, tirfeddianwyr, porwyr, ffermwyr, ogofäwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn, academyddion, cerddwyr, canŵ-wyr, arbenigwyr gweithgareddau awyr agored, seiclwyr oddi ar y ffordd, marchogion, cynghorwyr cymunedol, trefnwyr gweithgareddau awyr agored ac undebau ffermwyr. Mae'n siŵr mai ni yw'r unig FfMLl i gael dau Hyrwyddwr 'Ewch Tu Allan/Get Outside' Arolwg Ordnans ymhlith ein haelodau!

Ian Mabberley

Cadeirydd, Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

### Adroddiad y Cadeirydd

Fel sydd yn wir i'r mwyafrif o bobl, mae rhan olaf 2019 – 20 wedi bod yn anarferol iawn ond rwy'n hynod ddiolchgar fod ein Haelodau wedi addasu i'r sefyllfa a thrwy ddefnyddio e-byst a chyfarfodydd ar-lein rydym wedi parhau i allu darparu cyngor a chymorth i'r Parc.

Eleni, rydym wedi gweld gwaith yn mynd rhagddo ar hyn a fydd o bosib yn creu'r newid mwyaf i ddeddfwriaeth fynediad yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Mae'n teimlo'n amser hir iawn ers i'r FfMLl ymateb i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ond eleni, gwelwyd dechrau ar y gwaith manylach gan grwpiau arbenigol. Yn fy rôl fel Dirprwy Gynrychiolydd Cenedlaethol FfMLl Cymru, rwyf wedi sicrhau fod FfMLl, ac ymhellach, Awdurdodau Lleol yn derbyn diweddariadau cyson gan y grwpiau hyn. Yn sgil trafodaeth gan brif gynrychiolydd CNC, cafwyd sicrwydd y byddai pob gohebiaeth â'r FFMLl a'u haelodau mewn iaith hawdd ei deall yn hytrach nag 'iaith arbenigol.' Gobeithio y bydd hyn yn caniatáu i unrhyw argymhellion gan y grwpiau arbenigol gael eu hastudio a'u deall yn gywir gan aelodau'r FfMLl, sydd wedi'r cyfan, a hynny'n deg, yn bobl leyg, ymroddedig fel aelodau'r gymdeithas ehangach a fydd naill ai'n cael budd neu'n dioddef yn sgil y deilliannau terfynol.

Hefyd, eleni bu'r FfMLl y trafod materion yn ymwneud â chyllido mynediad at hawliau tramwy yn y Parc â Gweinidog LlC. Mae'n ymddangos fod gofynion y CGHT a'r niferoedd mawr o ymwelwyr (yn gyfreithiol neu'n anghyfreithlon) yn ystod yr haf COVID hwn wedi gosod

cyfrifoldebau mawr ar y timau Mynediad a gobeithiwn y bydd ein hymyriadau, yn y pen draw yn talu ar eu canfed a bydd lefel synhwyrol o gyllid yn cael ei dyrannu tuag at beth sydd yn rhan allweddol o fywydau pawb. Ar ran ein holl Aelodau, hoffwn ddiolch i Paul, Eifion, Richard a Lisa am eu gwaith caled a'u hamynedd.

Yn olaf, mae'n wych gweld Aelodau o APCBB yn mynychu'n cyfarfodydd fel Arsylwyr. Rwy'n siŵr fod hyn yn gymorth er mwyn magu cyd-ddealltwriaeth ac edrychaf ymlaen at groesawu rhagor ohonynt yn y dyfodol.

**Nodyn gan yr Ysgrifennydd**

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2019 i Dachwedd 2020, er mwyn cyd-fynd â chylch apwyntio'r aelodau cyfredol. Cafodd aelodau cyfredol Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (FfMLl PCBB) eu hapwyntio ym mis Tachwedd 2017 am gyfnod o 3 blynedd a bydd eu cyfnod yn y swydd yn dod i ben ddiwedd Tachwedd, eleni. Penderfynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i apwyntio'r uchafswm o aelodau a ganiateir (22) i'r FfMLl ac mae'r cyfarfodydd bob amser yn fywiog a diddorol ac wedi dechrau denu mwy o arsylwyr nag a gafwyd yn y gorffennol.

Yn anffodus, mae pandemig Covid wedi cael effaith ar amlder cyfarfodydd y FfMLl. Cafodd cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2019 ei ohirio ac yn dilyn newid yn y rheoliadau, cafodd un cyfarfod ym mis Hydref ei gynnal o bell.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae FfMLl PCBB wedi trafod amrywiaeth o faterion perthnasol ac er nad yw'r drafodaeth bob amser wedi cynnig cyngor ffurfiol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae cyngor wedi cael ei gynnig i'r Swyddogion mewn modd llai ffurfiol. Bu hyn yn ddefnyddiol dros ben.

Mae'r FfMLl hefyd wedi dylanwadu ar ddarparwyr mynediad eraill yn y Parc fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru Welsh Water a Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodaeth y FfMLl wedi dyfod yn fwy gweithredol wrth osod agenda sydd wedi cael ei groesawu a'i gefnogi gan swyddogion APCBB mewn nifer o ffyrdd. Mae'r FfMLl wedi cefnogi ceisiadau cyllido ar gyfer prosiectau sydd yn ymwneud â mynediad fel prosiect Step Changes ac wedi cynghori a chynorthwyo â darpariaeth prosiectau eraill. Mae'r FfMLl wedi cefnogi APCBB i wella mynediad i leoliadau penodol, er enghraifft, i Lyn y Fan Fach lle mae'n ymddangos bod gwelliannau'n mynd rhagddynt.

Mae'r FfMLl wedi darparu cyngor adeiladol a chymorth trwy gydol y flwyddyn ac wedi ymateb i'r uchafbwyntiau ac i'r isafbwyntiau. Hoffwn ddiolch i bob un o'r aelodau am eu cyfraniadau a'r amser sylweddol a roddwyd ganddynt i'r FfMLl yn ystod y cyfarfodydd a thu hwnt.

Richard Ball

Ysgrifennydd , Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol presennol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 16 Tachwedd 2017 ac mae'n cynnwys 22 aelod, gan gynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sefydlu o leiaf un Fforwm Mynediad Lleol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol (y Fforwm) yn ysgwyddo un swyddogaeth statudol yn unig, sef rhoi cyngor i Awdurdod y Parc Cenedlaethol (yr Awdurdod), Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch gwella mynediad y cyhoedd at dir yn yr ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal. Dylai roi'r cyngor hwn ar ôl rhoi sylw dyledus i'r anghenion rheoli tir ac i harddwch naturiol yr ardal.

Mae papurau cyfarfodydd y Fforwm ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.beacons-npa.gov.uk neu gall y cyhoedd weld copïau ohonynt yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, LD3 7HP neu archebu copïau unigol o'r swyddfa honno (am dâl bach). Mae croeso i'r cyhoedd fynd i bob un o gyfarfodydd y Fforwm a gellir estyn gwahoddiad iddynt siarad yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. Gellir cysylltu ag aelodau'r Fforwm drwy'r Ysgrifennydd.

### Adolygu'r Flwyddyn

Blas o'r Materion a Drafodwyd a'r Cyngor a roddwyd gan Fforwm Mynediad Lleol 2019 – 2020

Nid yw pob mater a drafodwyd gan y FfMLl ar y rhestr isod ond mae'r canlynol yn rhoi blas o fusnes y FfMLl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd nifer o eitemau fel Adolygu Cynllun Gwelliant Hawliau Tramwy (APCBB) eu trafod mewn nifer o gyfarfodydd gan eu bod yn feysydd gwaith pwysig. Cynhaliodd y FfMLl 4 cyfarfod ac 1 cyfarfod rhithiol yn ystod y flwyddyn.

### Datganiadau Ardal

Cafodd CNC ei roi yng ngofal cynhyrchu 7 Datganiad Ardal ar gyfer Cymru gyfan. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r prif heriau sydd yn wynebu'r ardal benodol; beth all pob un ohonom ei wneud er mwyn cyflawni'r heriau hynny a sut allwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well, er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae DA Canolbarth Cymru, er enghraifft yn cynnwys adrannau ar wella bioamrywiaeth, cysylltu pobl â lleoedd a thir cynaliadwy, dŵr ac aer. Yn anffodus, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhan o 4 DA ac mae FfMLl APCBB wedi ei gwneud yn glir, i CNC nad yw hyn yn foddhaol. Mae CNC wedi cytuno i ymdrin â materion sydd yn ymwneud â PCBB mewn modd cydgysylltiedig a byddant yn rhoi systemau gweinyddol ar waith er mwyn sicrhau cyfathrebiad da.

### Teithiau Cerdded ar y We

Mae FfMLl PCBB wedi cefnogi'r gwaith yr oedd APCBB yn ei wneud er mwy darparu disgrifiadau o deithiau cerdded ar ei wefan. Mae'r disgrifiadau o deithiau cerdded yn cynnwys system raddio a disgrifiad o gyflwr y tir a fydd yn galluogi ymwelwyr i benderfynu pa deithiau

sydd yn addas ar eu cyfer. Awgrymodd y FfMLl y dylai APCBB sicrhau fod y wybodaeth hon ar gael ar ap pan neu os bydd adnoddau ar gael er mwyn gwneud hynny.

**Cynllun Gwelliannau Hawliau Tramwy (CGHT)**

Mae'r CGHT yn gynllun strategol er mwyn rheoli mynediad. Cafodd CGHT ei gynhyrchu yn 2007 gan APCBB ac mae gofyn bod y CGHT yn cael ei adolygu pob 10 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau statudol ynghylch adolygu'r CGHT yng Nghymru ac mae APCBB yn dilyn y canllawiau hynny.

Yn ôl y canllawiau, mae'n rhaid i gysylltiadau gael eu gwneud â strategaethau, cynlluniau, polisïau a deddfwriaethau eraill Llywodraeth Cymru fel Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn ofynnol fod asesiadau'n cael eu gwneud o ofynion y cyhoedd yn ogystal â dynodi cyfleoedd.

Roedd y FfMLl yn falch o weld y CGHT yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan APCBB ar 29 Hydref 2019.

**Mynediad ger Llyn y Fan Fach**

Mae APCBB wedi bod yn cydweithio â Dŵr Cymru Welsh Water ers peth amser er mwyn gwella'r mynediad ger Lyn y Fan Fach.



Mae rhan o'r ffordd fynediad eisoes wedi cael ei huwchraddio. Mae angen rhagor o welliannau er mwyn cynyddu'r parcio anffurfiol (heb arwyneb) a thynnu'r gatiau oddi ar y trac o'r maes parcio i'r llyn a fyddai'n gwneud y ffordd yn fwy hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn trydan. Yn anffodus, nid yw'r mater hwn wedi cael ei ddatrys o hyd ond mae'r FfMLl yn parhau i roi pwysau ar Dŵr Cymru Welsh Water i wella'r mynediad ger y safle i bawb.

**Ceisiadau Cyllido**

Ni dderbyniodd prosiect Step Changes APCBB gyllid gan GANaLl (Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant.) Fodd bynnag, cynigodd y FfMLl gymorth i gais y prosiect Camlesi a Llesiant (ar y cyd â APCBB / Cyngor Sir Powys / Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt) i GANaLl. Cafodd y prosiect ei gynllunio er mwyn darparu amodau sydd yn annog gwell cyfranogiad mewn gweithgareddau yn yr awyr agored a hynny gan amrywiaeth ehangach o bobl drwy gydgysylltu Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu â chymunedau a safleoedd bywyd gwyllt. Bwriad y prosiectau yw gwella iechyd a llesiant yn ogystal ag ennyn dealltwriaeth a mwynhad o gefn gwlad.

**Llwybr Seiclo arfaethedig o Aberhonddu i'r Gelli (Y Lôn Las o Aberhonddu i'r Gelli)**

Bu FfMLl PCBB yn mwynhau cyflwyniad gan Freya Morgan ar lwybr seiclo arfaethedig Aberhonddu i'r Gelli. Mae'r cynnig am greu llwybr di-draffig ar hyd llwybr hen reilffordd Aberhonddu i'r Gelli. Comisiynwyd astudiaeth dichonoldeb gan Sustrans a chafwyd sicrwydd fod rhan helaeth o'r llwybr mewn cyflwr da a bod yma le i barhau â'r prosiect. Mae'r llwybr 25km o hyd dan berchnogaeth nifer o dirfeddianwyr a bydd angen edrych ar sut i sicrhau mynediad. Mae hefyd nifer o rannau lle yr adeiladwyd dros hen lwybr y rheilffordd a lle y byddai angen ystyried llwybrau amgen.

**Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori Diwygio Mynediad (GCDM) er mwyn cynghori ar faterion technegol sydd yn gysylltiedig â'i hargymhellion i ddiwygio mynediad yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r GCDM yn cynnwys grŵp llywio a 3 grŵp arbenigol sydd yn edrych ar y diwygiadau mynediad arfaethedig. Mae Grŵp 1 yn edrych ar ymestyniad hawliau ar Dir Mynediad a ddynodwyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae Grŵp 2 yn edrych ar newidiadau i hawliau tramwy a Grŵp 3 ar fapio digidol. Mae pob grŵp yn cynnwys naw aelod, tri ymhob un o'r sector cyhoeddus, y sector hamdden a sector y tirfeddianwyr. Mae Richard Ball yn aelod o grŵp 1, Lisa Lloyd o grŵp 3 ac mae Eifion Jones yn aelod o'r Grŵp Llywio. Bydd y Grŵp Llywio yn derbyn deilliannau'r grwpiau arbenigol ac yn cyflwyno argymhellion i'r Gweinidog.

Mynegodd y FfMLl peth pryderon nad oedd wedi ei gynnwys yn y broses a chynghorodd CNC i ymgynghori â'r FfMLl, ac mae hynny wedi digwydd bellach.

## ATODIAD 1

## MANYLION YR AWDURDOD PENODI

### Yr awdurdod penodi:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon

Ffordd Cambrian

Aberhonddu

Powys

LD3 7HP

Ffôn: 01874 624437

Ffacs: 01874 622574

E-bost: enquiries@beacons-npa.gov.uk

**Ysgrifennydd:**

Richard Ball

Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad a Mynediad

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon

Ffordd Cambrian

Aberhonddu

Powys


LD3 7HP

Ffôn: 01874 620464

E-bost: richard.ball@beacons-npa.gov.uk

## Atodiad 11

Map



## ATODIAD III

## MANYLION CYFARFODYDD

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd y cyfarfodydd a ganlyn. Roedd pob un ohonynt yn agored i'r cyhoedd a daeth aelodau o'r cyhoedd i bob un ohonynt:

**2019-20**

| | |
|---|---|
| 11 Ebrill 2019 | Swyddfa APCBB, Aberhonddu |
| 9 Gorffennaf 2019 | Swyddfa APCBB, Aberhonddu |
| 13 Tachwedd 2019 | Swyddfa APCBB, Aberhonddu |
| 20 Chwefror 2020 | Swyddfa APCBB, Aberhonddu |
| 8 Hydref 2020 | Cyfarfod rhithiol, trwy 'Lifesize' |

## Atodiad IV

## Manylion yr aelodau

| Enw | Dyddiad penodi i'r Fforwm Mynediad Lleol |
|---|---|
| **Cadeirydd – Ian Mabberley** | **16 Tachwedd 2017** |
| Fel rhywun sy'n defnyddio rhwydwaith hawliau tramwy'r Parc yn rheolaidd a thyddynwr yn un o ddyffrynnoedd prysuraf y Parc, rwy'n deall y pwysau ar y rhwydwaith ac ar breswylwyr a thirfeddianwyr.<br>Mae gennyf ddiddordeb penodol mewn sicrhau bod mynediad ar draws y Parc yn bleserus ac yn ddiogel i ddefnyddwyr dilys. Yn fy ardal, rwy'n cydweithio'n agos â'r Heddlu a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyfyngu ar weithgareddau anghyfreithlon ar y rhwydwaith hawliau tramwy ac ar dir mynediad. Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod gweithgareddau grwpiau mawr yn cael eu rheoli'n dda a'u bod, lle bo modd, o fudd i'r cymunedau lleol y maent yn effeithio arnynt.<br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Cyfarwyddwr: Cwmni Buddiannau Cymunedol Grwyne Fawr<br>Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr: Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel<br>Aelod: British Cycling | |
| **Dirprwy Gadeirydd – Colin Woodley** | **16 Tachwedd 2017** |
| Buddiannau sy'n berthnasol i Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:<br>Ffermio<br>Pori tir comin<br>Archwilio ogofâu<br>Treftadaeth ddiwydiannol<br>Gwaith cymunedol<br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Aelod o bwyllgor Undeb Amaethwyr Cymru<br>Ysgrifennydd Cymdeithas Cominwyr Penderyn<br>Aelod o bwyllgor Cymdeithas Ogofa Prydain<br>Cynghorydd Cymuned Ystradfellte<br>Cynghorydd Cymuned Hirwaun a Phenderyn | |
| **Pamela Bell** | **16 Tachwedd 2017** |
| Rwy'n gerddwr, yn nofiwr ac yn gychwr brwd, ac rwy'n mwynhau'r gweithgareddau hamdden hyn ochr yn ochr â diddordebau awyr agored megis hanes, hanes naturiol, daeareg ac archaeoleg.<br>Rwyf wedi mwynhau byw a gweithio ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am 30 mlynedd, ac rwy'n gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned ar hyn o bryd. Drwy brofiad uniongyrchol a sgyrsiau â phreswylwyr eraill, rwy'n deall pwysigrwydd mynediad i gefn gwlad yn yr ardal o amgylch cartrefi pobl, a'r problemau y mae gweithgareddau amhriodol yn eu hachosi i breswylwyr. Fel rhywun a gafodd ei magu yng nghanol dinas ac sydd wedi bod yn weithiwr ieuenctid gwirfoddol am lawer o flynyddoedd, rwyf hefyd yn deall pwysigrwydd mynediad ehangach i gefn gwlad i rai sy'n byw mewn dinasoedd.<br>Tra byddaf yn aelod o'r Fforwm, un o fy mhrif nodau fydd cynrychioli'r rheini sydd am gael mynediad i ardaloedd ucheldir neu iseldir, gan gynnwys dŵr a glannau, at ddibenion antur, hamdden a mwynhad tawel cynaliadwy. Rwy'n pryderu bod yr agenda 'twristiaeth antur' gyfredol yng Nghymru'n rhoi | |

gormod o bwyslais ar 'anturiaethau wedi'u pecynnu' gyda digwyddiadau a hyrwyddiadau uchel eu proffil sy'n camu ymhellach ac ymhellach oddi wrth dwristiaeth gynaliadwy ac ethos gwreiddiol y parciau cenedlaethol. Hoffwn weld pwyslais ar gydnabod hawliau cyhoeddus; hwyluso mynediad; sicrhau bod hawliau tramwy dros dir yn cael eu cadw'n agored; a mynd ati i ddefnyddio'r cyfleoedd a ddarperir gan ddeddfwriaeth i hwyluso mynediad at dir a dŵr mewndirol amrywiol, gan ddarparu gwybodaeth ffeithiol sy'n caniatáu i bobl leol ac ymwelwyr berchnogi, cynllunio a mwynhau eu profiad awyr agored cynaliadwy.

Aelodaeth o sefydliadau:
Aelod oes o'r Cyngor Astudiaethau Maes a Chymdeithas yr Hostelau Ieuenctid
Aelod a gwirfoddolwr achlysurol: Grŵp Amgylchedd Treftadaeth y Byd Blaenafon a Chymdeithas Hanes ac Archaeoleg Aberystwyth
Grwpiau sy'n gysylltiedig â gwaith: Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru; Darparwyr Gwobr Dug Caeredin; cymdeithasau twristiaeth lleol.
Ar hyn o bryd, rwy'n gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanelly.
Un o aelodau sylfaenol y grŵp ymgyrchu, Dyfroedd Cymru.
Aelod o Canŵ Cymru a British Canoeing

| **Phillipa Cherryson** | **16 Tachwedd 2017** |
|---|---|

Awdur sy'n mwynhau marchogaeth ceffylau a cherdded bryniau yw Philippa. Fel cyn-ohebydd papurau newydd a theledu yng Nghymru, mae hi bellach yn ysgrifennu ar gyfer cylchgronau a phapurau newydd ar draws y DU. Mae'n aelod o bwyllgor Clwb Marchogaeth Dyffryn Wysg yn y Fenni ers dros 10 mlynedd. Mae Philippa'n berchen ar ei cheffyl ei hun ac mae'n marchogaeth at ddibenion hamdden ac fel marchogwr British Endurance. Mae ei phartner yn aelod o Dîm Achub Mynydd Longtown ac mae'n helpu'r tîm â gwaith cyhoeddusrwydd a'r wasg. Fel tyddynwr, mae hefyd yn deall pryderon tirfeddianwyr ac mae'n gadwraethwr brwd. Prif ddiddordebau Philippa yw cerdded, marchogaeth ceffylau a diogelwch yn y mynyddoedd.

Aelodaeth o sefydliadau:
Clwb Marchogaeth Dyffryn Wysg, British Endurance, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

| **Stuart France** | **16 Tachwedd 2017** |
|---|---|

Rwy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ers 1985. Ceir llu o gyfleoedd yn yr ardal i fwynhau fy niddordebau hamdden, sef ogofa, cerdded bryniau, rhedeg llwybrau ac ychydig o feicio mynydd hefyd. Mae fy ngwaith proffesiynol yn ymwneud â pheiriannau cyfrif electronig i ymchwilio i weithgarwch ymwelwyr, yn enwedig yng nghefn gwlad, felly rwy'n dod i gysylltiad ag ystod eang o weithwyr awyr agored proffesiynol ledled y DU sy'n rheoli tir y gall y cyhoedd gael mynediad ato at ddibenion hamdden.
Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cryn dipyn o ansicrwydd o ran ymgyngoriadau amrywiol Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio'r gyfraith mynediad yng Nghymru ac, o'r herwydd, newidiadau posibl i rôl y fforymau mynediad lleol: aeth pob un o'r cynigion hyn i'r gwellt. Caiff gwahanol gampau a gweithgareddau awyr agored, y mae llawer ohonynt yn cael eu cynrychioli ymhlith diddordebau aelodau'r Fforwm, eu trin mewn ffyrdd gwahanol – ac mae hyn braidd yn annheg pan nad ydynt yn achosi unrhyw niwed nac anghyfleuster i ddefnyddwyr eraill o'u cyflawni mewn ffordd gyfrifol.
Felly byddaf yn gweithio er cysondeb ac eglurder i ddatblygu cyfleoedd hamdden cyfrifol ar draws yr holl sbectrwm gweithgareddau, gan gynnal y mesurau sy'n diogelu'r amgylchedd naturiol a buddiannau'r holl bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol, yn gweithio ynddo neu'n ymweld ag ef.

Aelodaeth o sefydliadau:

| | |
|---|---|
| Swyddog Mynediad/Cadwraeth Cyngor Ogofa'r Cambria ers 2014. Cynrychiolydd Cyngor Ogofa'r Cambria ar Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Ogofa Prydain. Cyfarwyddwr Cave Access Ltd, cwmni di-elw sy'n rheoli cytundebau mynediad i archwilwyr tanddaearol. Aelod o glybiau mynydda ac ogofa a'r RSPB. | |
| **Debbie Hughes** | **16 Tachwedd 2017** |
| Rwy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ers 35 mlynedd. Mae fy ngŵr a minnau'n rhedeg fferm tir uchel, gyda defaid mynydd Cymreig yn bennaf a buches fach o wartheg yr Ucheldir. Mae hwn yn lle eiconig i fyw ac i weithio ynddo ac os gallaf wneud cyfraniad bach at warchod a gwella'r amgylchedd drwy ddull cyfannol sydd o fudd i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, rwy'n credu y byddaf wedi gwneud defnydd buddiol o'm hamser.<br>Fy mhrif flaenoriaethau fydd tynnu sylw at yr angen i wella'r Rhiwiau a hyrwyddo achos y merlod mynydd cynhenid ar y Mynyddoedd Duon.<br><br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Cymdeithas Porwyr y Mynyddoedd Duon<br>Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig | |
| **Mr Siôn James** | **Mai 2019** |
| | |
| **Dr Ian Jenkins** | **16 Tachwedd 2017** |
| Daearyddwr twristiaeth sy'n arbenigo ym meysydd cynaliadwyedd ac antur yw Ian. Un o'r meysydd y bu ei waith yn ymwneud ag ef yw twristiaeth antur a mynediad i barciau cenedlaethol. Mae Ian hefyd wedi rheoli nifer o gyrsiau twristiaeth antur yng Nghymru. I wneud hyn, bu'n cyd-drafod yn agos â chwmnïau antur ac yn trin a thrafod materion sy'n ymwneud â mynediad at dirweddau amgylcheddol-sensitif, gan gynnwys parciau cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro. Bu'n gweithio yng Ngwlad yr Iâ a'r Swistir ar destunau a oedd yn ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy mewn parciau cenedlaethol, yn enwedig twristiaeth antur. Mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau, penodau ac erthyglau am dwristiaeth gynaliadwy, newid hinsawdd, twristiaeth antur, a rheoli iechyd a diogelwch.<br><br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Athro Cyswllt Gwadd ym Mhrifysgol Gwlad yr Iâ<br>Yn flaenorol:<br>Athro Cyswllt ym Mhrifysgol Gwlad yr Iâ<br>Cymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Nicosia<br>Cyfarwyddwr Ymchwil LRG/Glion IHE, y Swistir<br>Cyfarwyddwr Celt@s a SaiL, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Abertawe | |
| **Mr Hywel Morgan** | **16 Tachwedd 2017** |
| Ffermwr eidion a defaid yn Myddfai, yng nghartref chwedlonol Morwyn Llyn y Fan Fach a'i meibion, Meddygon Myddfai.<br>Hawliau pori a phorwr actif ar dir comin y Mynydd Du.<br>Yn frwd dros y mynydd, Llyn y Fan Fach a Bannau Brycheiniog.<br>Credu'n gryf bod modd i borwyr, pobl o'r dref a'r ddinas, ac ymwelwyr gydweithio yn y Parc Cenedlaethol. | |

| | |
|---|---|
| Fel ffermwyr, mae angen inni gysylltu mwy â phobl y ddinas.<br>Tad i ddau o blant a siaradwr Cymraeg rhugl.<br><br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Cynghorydd Cymuned Myddfai<br>Is-gadeirydd ac aelod o Gymdeithas Porwyr y Mynyddoedd Duon<br>Ysgrifennydd ac aelod o Gymdeithas Porwyr Myddfai | |
| **Denis J Murphy** | **16 Tachwedd 2017** |
| Fel athro Bioleg a darlithydd prifysgol ar destunau fel bioamrywiaeth, bioddaearyddiaeth, cadwraeth amgylcheddol a rhywogaethau goresgynnol, mae gennyf ddiddordeb proffesiynol mewn agweddau naturiol ar ein hamgylchedd lleol ac rwy'n dod â myfyrwyr ar ymweliadau maes â'r Parc Cenedlaethol yn rheolaidd.<br>Fel rhywun sy'n breswylydd ac yn dirfeddiannwr yn y Parc a rhywun sy'n defnyddio llawer o'i atyniadau a'i gyfleusterau awyr agored, mae gennyf ddiddordeb personol mewn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn y ffordd orau bosibl. Rwyf hefyd yn teimlo y gallaf gyfrannu at ddyfodol y Parc er budd y gymuned ehangach, gan gynnwys preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr.<br><br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Cymrawd y Gymdeithas Frenhinol Bioleg<br>Aelod o'r Gymdeithas Bioleg Arbrofol<br>Aelod o Gymdeithas Hybu Gwyddoniaeth America<br>Rheolwr-olygydd, World Agriculture | |
| **Josie Pearson** | **16 Tachwedd 2017** |
| Rwyf bob amser wedi mwynhau crwydro ar hyd a lled cefn gwlad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i weld y golygfeydd godidog. Rwyf wedi byw ym mhen gogledd-ddwyreiniol y Parc bron ar hyd fy oes ac, ers imi ddechrau defnyddio cadair olwyn, rwyf wedi dod i wybod nad yw rhan helaeth o'r Parc yn hygyrch i rai sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rheini sy'n ei chael yn anodd symud. Hoffwn helpu i sicrhau bod y Parc yn fwy hygyrch i bawb ac rwyf wedi bod yn treialu'r prosiect 'Milltiroedd heb Gamfeydd' o amgylch y dref lle rwy'n byw. Rwy'n gobeithio y bydd modd rhoi ethos y prosiect ar waith ar draws gweddill y Parc ymhen amser, a bydd modd trosglwyddo'r hyn yr wyf wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd i brosiectau ehangach yn y Parc.<br><br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>Cynghorydd ar Gyngor Tref y Gelli Gandryll<br>Aelod o Fforwm Mynediad Lleol Swydd Henffordd | |
| **Ruth Pickvance** | **16 Tachwedd 2017** |
| Trefnydd rasys ar gyfer rhedwyr llwybr a rhedwyr mynydd yn y Parc<br>• Cyfarwyddwr rasys cymwysedig Run Britain<br>• Cyn-bencampwr Rhedeg Mynydd Prydain<br>• Cyn-athletwr ar lefel ryngwladol<br>• Cyfarwyddwr Element: mae Element yn rhedeg cyrsiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau, natur a llesiant adferol yn ardaloedd awyr agored mwy gwyllt y Parc Cenedlaethol<br>• Rhywun sy'n frwd dros yr awyr agored<br>• Perchennog coetir<br>Aelodaeth o sefydliadau: | |

- Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru
- Y Gymdeithas Rhedwyr Mynydd
- Mynydd Du
- Cymdeithas Gwenynwyr Gwent
- Ymddiriedolaeth Natur Gwent
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Y Gymdeithas Hyfforddiant Mynydd

Yn flaenorol:

- Pennaeth cyfadran yng Ngholeg yr Iwerydd

Ar hyn o bryd:

- Cyfarwyddwr Element
- Swydd ran-amser gyda sefydliad datblygu arweinyddiaeth, Harthill Consulting

| **Tracy Purnell** | **16 Tachwedd 2017** |
|---|---|

Llysgennad ar gyfer yr Arolwg Ordnans.
Llunio teithiau cerdded ac erthyglau ar gyfer ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol. Treulio'r rhan fwyaf o'm hamser yn cerdded neu'n rhedeg ar hyd llwybrau'r Parc. Hyrwyddo teithiau cerdded sy'n addas i gŵn ac annog perchnogion cŵn i'w cerdded yn gyfrifol.

| **Steve Rayner** | **16 Tachwedd 2017** |
|---|---|

Rwy'n canŵio, yn ceufadu ac yn cerdded bryniau, felly mae gennyf ddiddordeb mawr mewn cynnal a gwella mynediad at dir a dŵr at ddibenion hamdden ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Rwy'n ymgymryd â gweithgareddau awyr agored at ddibenion hamdden, at ddibenion cystadlu (polo canŵ a chanŵio slalom), fel hyfforddwr ac arweinydd gwirfoddol (ar gyfer Clwb Canŵio Aberhonddu a Chymdeithas y Sgowtiaid), ac fel hyfforddwr llawrydd rhan-amser (gan weithio'n annibynnol ac mewn canolfannau lleol), felly mae gennyf ddiddordeb mewn mynediad at dir a dŵr at ystod eang o ddibenion.
Rwy'n berchen ar fferm gosod porfa ac mae gennyf hawliau cominwr ger Libanus, felly mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn gwarchod buddiannau tirfeddianwyr ochr yn ochr â chynyddu mynediad at ddibenion hamdden.
Rwy'n Swyddog Dyfrffyrdd a'r Amgylchedd rhan-amser ar gyfer Canŵ Cymru (Corff Llywodraethu Cenedlaethol y gamp) ac yn Gydgysylltydd rhan-amser ar gyfer Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (sy'n cynrychioli busnesau gweithgareddau awyr agored yn y De), felly mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn cynrychioli safbwyntiau a buddiannau'r ddau sefydliad hyn.

Aelodaeth o sefydliadau:
Clwb Canŵio Aberhonddu (Cadeirydd a Swyddog Hyfforddi)
Canŵ Cymru (Cadeirydd gwirfoddol Pwyllgor Slalom Canŵ Cymru); a Swyddog Dyfrffyrdd a'r Amgylchedd rhan-amser sy'n rhoi imi aelodaeth o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru).
Cyngor Mynydda Prydain (aelod unigol).
Sgowtiaid Ardal Brycheiniog (Cynorthwyydd Gweithgareddau)
Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (Cydgysylltydd rhan-amser).
Cymdeithas Cominwyr Mynydd Illtud.

| **David Sharman** | **16 Tachwedd 2017** |
|---|---|

Gwella mynediad i bobl anabl at hawliau tramwy newydd a hawliau sy'n bodoli eisoes. Diddordeb mewn cynllunio hefyd.

| | |
|---|---|
| Aelodaeth o sefydliadau:<br>Aelod o Gyngor Cymuned Dyffryn Grwyne | |
| **Dr Paul Sinnadurai FCIEEM** | **16 Tachwedd 2017** |
| Bu Paul yn gweithio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ers 2000, gan wasanaethu fel Ecolegydd, Uwch-ecolegydd a Chynghorydd Polisi, Rheolwr Cadwraeth, a Rheolwr y Tîm Adnoddau Naturiol erbyn hyn. Mae'n aelod o Dîm Rheoli'r Awdurdod ac mae'n rheolwr llinell i'r Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones, y Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad a Mynediad, Richard Ball, Rheolwr y Wardeiniaid, Judith Harvey, a'r Uwch-ecolegydd a Chynghorydd Ymaddasu i Newid Hinsawdd, y Dr Bradley Welch. | |
| **Toby Veall** | **16 Tachwedd 2017** |
| BSc (Anrh.) Astudiaethau'r Amgylchedd Gwledig (Coleg Wye, Prifysgol Llundain)<br>DipEd Addysg Awyr Agored, Coleg Moray House, Caeredin<br>Roedd fy niddordebau'n arfer cynnwys cerdded, dringo, canŵio, hwylio, deifio sgwba, a thynnu lluniau o dirweddau a bywyd gwyllt.<br>Rwyf wedi gweithio'n helaeth yn Affrica, ac yn bennaf yn Zambia a Tanzania, ym maes addysg awyr agored, twristiaeth a dyframaethu, yn enwedig yn rhanbarth Llyn Tanganyika.<br>Ar ôl damwain yn 2010, bu imi anafu llinyn yr asgwrn cefn ac rwyf bellach yn defnyddio cadair olwyn yn barhaol. Ar hyn o bryd, mae fy niddordebau'n cynnwys mynediad anabl i'r awyr agored, beicio llaw, ffotograffiaeth, ymarfer cŵn, ac ysgrifennu. | |
| **Chris Waterhouse** | **16 Tachwedd 2017** |
| Bu imi hyfforddi fel daearegwr, ond bûm yn gwasanaethu fel milwr cyn dychwelyd i weithio i Gymdeithas Ceffylau Prydain.<br>Rwy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan weithio'n lleol fel warden ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.<br>Rwyf hefyd yn Swyddog Mynediad a Llwybrau Ceffylau gwirfoddol ar gyfer Cymdeithas Merlota Prydain. | |
| **Katherine Whitrow** | **16 Tachwedd 2017** |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) – Aelod sirol<br>Porwr yn y Fforest Fawr<br>Ffermwr eidion a defaid<br>Tirfeddiannwr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Aelodaeth o sefydliadau:<br>NFU Cymru | |
| **Hilda Marion Williams** | **16 Tachwedd 2017** |
| Fel Cynghorydd Cymuned, mae ganddi ddiddordeb mawr mewn gwella mynediad i aelodau o'r cyhoedd â gwahanol alluoedd. | |

**ATODIAD V**

DARLLEN PELLACH

*Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol*

Mae'n ofynnol drwy statud i bob awdurdod penodi baratoi adroddiadau blynyddol sy'n trafod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth. Gellir cael copïau o'r adroddiadau hyn gan Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill hefyd ar gael ar gyfer cyfarfodydd unigol y Fforwm Mynediad Lleol.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; Y Llyfrfa (2000).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001; Y Llyfrfa (2002).

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Canllawiau Fforymau Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Canllawiau cyngor ac arferion gorau (2002).

Canllawiau Fforymau Mynediad Lleol 2: Rôl, dyletswyddau a swyddogaethau Fforymau Mynediad Lleol (2002).

Adroddiad Blynyddol a Chyfeiriadur Fforymau Mynediad Lleol Cymru 2003 (2004).